Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Little Puffins
# Ysgol Gynradd Biwmares
# Ynys Môn
# LL58 8HL

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yn awdurdod lleol Ynys Môn yw Little Puffins. Mae wedi'i leoli yn yr un adeilad â'r ysgol gynradd ym Miwmares ac wedi'i gofrestru ar gyfer hyd at 24 o blant. Mae'r lleoliad ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymhorau ysgol pan mae'n cynnig sesiynau yn ystod y bore neu'r prynhawn. Gall plant fynychu am y diwrnod cyfan hefyd.

Roedd 22 o blant ar y gofrestr yn ystod yr arolygiad. Mae pedwar o blant tair oed yn derbyn cyllid y blynyddoedd cynnar gan yr awdurdod lleol. Mae tri aelod o staff amser llawn yn y lleoliad, gan gynnwys dau gyd-arweinydd sydd wedi gweithio gyda'i gilydd er 2014.

Daw'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o'r ardal leol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Saesneg gartref a daw rhai ohonynt o gartrefi Cymraeg. Mae ychydig iawn o blant yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r lleoliad wedi nodi nad oes gan unrhyw blant anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym Mehefin 2017 a chan Estyn yn Hydref 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn cymysgu â phlant a phobl eraill yn rhwydd
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg yn dda
- Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus ac yn treulio amser priodol yn cwblhau gweithgarwch o'u dewis nhw
- Mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o weithgareddau diddorol ac ysgogol i ennyn diddordeb y plant a'u cymell
- Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn eu cynorthwyo'n effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r broses hunanarfarnu yn sefydledig ac effeithiol
- Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn adlewyrchu'r arfer bresennol yn y lleoliad yn gywir ac mae targedau ar gyfer gwella yn realistig a hylaw
- Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm cryf
- Mae'r pwyllgor rheoli yn darparu cymorth pwrpasol
- Caiff y gyllideb ei rheoli'n effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant

A2 Gwella cyfathrebu gyda rhieni am gynnydd eu plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran eu gwahanol fannau cychwyn ac yn cyflawni safonau da ar draws meysydd dysgu’r cyfnod sylfaen.

Mae gan bron bob un o’r plant fedrau siarad a gwrando cymwys. Yn ystod arferion dyddiol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn briodol. Mae llawer ohonynt yn dechrau sgyrsiau syml ac maent yn barod i ofyn am bethau, er enghraifft wrth chwarae y tu allan yn y gegin fwd. Mae bron pob un ohonynt yn ymuno’n hyderus ag ystod o ganeuon a rhigymau cyfarwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd. Mae bron pob un ohonynt yn eistedd yn dawel i wrando ar storïau ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dangos eu diddordeb a’u dealltwriaeth trwy lefel eu hymgysylltiad a sylwadau ar yr hyn sy’n digwydd. Mae rhai plant yn dewis darllen llyfrau yn ystod chwarae rhydd. Maent yn eu trin a’u trafod yn gywir, gan droi tudalennau’n ofalus a rhannu hoff lun â phlentyn arall o bryd i’w gilydd. Mae llawer ohonynt yn adnabod eu henwau pan fyddant yn eistedd i lawr i gael eu byrbryd yn y bore. Mae bron pob un o’r plant yn datblygu eu medrau creu marciau yn dda. Er enghraifft, maent yn tynnu llun ar y tir y tu allan gyda ffyn mawr o sialc gan wneud patrymau mewn ‘glop’ lliwgar.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu medrau rhif defnyddiol. Maent yn cyfrif a defnyddio rhifau yn eu chwarae yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn cyfrif gemau i’w rhoi yn eu cist drysor. Defnyddiant iaith fathemategol gywir, er enghraifft pan fyddant yn siarad am boteli sy’n llawn neu’n wag yn yr hambwrdd dŵr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn adnabod amrywiaeth o siapiau syml, gan gynnwys triongl a seren. Maent yn dechrau adnabod rhifau’n gywir, er enghraifft pan fyddant yn gwneud galwadau ffôn yn y gornel gartref gan ddefnyddio cyfeirlyfr syml.

Mae llawer o blant yn defnyddio tegan rhaglenadwy yn briodol gyda chymorth gan oedolyn, ac mae lleiafrif ohonynt yn trin a thrafod llygoden yn gymwys i chwarae gemau syml ar gyfrifiadur y lleoliad. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau TGCh plant wedi’u datblygu’n ddigonol.

Mae bron pob un o’r plant yn dechrau datblygu dealltwriaeth gadarn o’r Gymraeg. Maent yn deall ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau sylfaenol a roddir gan ymarferwyr. Mae bron pob un o’r plant yn ymuno’n frwdfrydig â chaneuon a rhigymau cyfrif, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif yn Gymraeg gyda chywirdeb a hyder.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau corfforol da. Maent yn trafod y camau at y lle y tu allan yn hyderus ac yn cerdded yn fedrus ar hyd mainc yn y neuadd. Mae llawer o blant yn dechrau datblygu medrau effeithiol wrth feddwl a datrys problemau, er enghraifft pan fyddant yn canfod sut i dynnu modrwy oddi ar law wedi rhewi fel rhan o’u prosiect ar fôr-ladron.

## Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus iawn. Maent yn awyddus i weld yr ymarferwyr ac yn siarad yn llawn cyffro am bethau y maent wedi bod yn eu gwneud gartref. Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn ymddwyn yn dda. Yn benodol, maent yn eistedd yn sylwgar ar gadeiriau ar gyfer amser cylch ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gadael ardal yn daclus pan fyddant wedi gorffen chwarae yno. Er enghraifft, maent yn rhoi offer yn ôl yn y blwch a llyfrau'n ôl ar y silff. Maent yn rhannu offer yn rhwydd ac yn rhyngweithio'n dda â phlant eraill. Maent yn trafod yr hyn y maent yn ei wneud o does â'i gilydd ac yn edmygu eu gwahanol greadigaethau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn symud o gwmpas y lleoliad yn hyderus ac yn treulio amser defnyddiol yn cwblhau'r gweithgareddau y maent yn eu dewis.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau hunangymorth yn dda. Maent yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac yn helpu dosbarthu powlenni a chwpanau. Mae bron pob un ohonynt yn bwyta grawnfwyd a llaeth heb ei ollwng ac yn pilio banana gyfan yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdrechu'n dda i wisgo eu cotiau eu hunain cyn mynd y tu allan.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a dychmygus, yn seiliedig ar themâu sy'n adlewyrchu diddordebau'r plant yn effeithiol. Mae'r rhain yn cymell ac ennyn diddordeb y plant yn dda ac yn eu helpu i wneud cynnydd yn effeithiol tuag at fodloni deilliannau'r cyfnod sylfaen.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd da i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau corfforol plant. Er enghraifft, maent yn annog plant i gyfrif faint o emau y byddant yn eu defnyddio i addurno cist drysor. Rhoddir cyfleoedd effeithiol i blant ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar ar draws y meysydd dysgu, fel defnyddio'r llyfr nodiadau yn y gornel gartref. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau siarad a gwrando plant yn effeithiol trwy eu hannog i siarad am eu profiadau dysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn systematig.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r awyr agored yn dda i ddatblygu ystod lawn medrau'r plant. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau plannu a bwyta llysiau yn ystod y flwyddyn, a cheir digonedd o gyfleoedd gwerth chweil iddynt bedlo beiciau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau Cymraeg plant yn datblygu'n dda. Caiff plant gyfleoedd gwerth chweil i glywed ac ymateb i Gymraeg llafar ar draws y lleoliad. Mae ymarferwyr yn annog plant i ymuno â chaneuon Cymraeg ac maent yn dysgu am ddiwylliant Cymru yn briodol trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac ymweld â'r dref i weld atyniadau fel y castell.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob ymarferwr wybodaeth a dealltwriaeth dda o arfer y cyfnod sylfaen. Maent yn datblygu perthnasoedd cryf â'r plant ac yn ymgysylltu â nhw'n llawn trwy gydol y sesiwn. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus trwy arferion sefydledig a defnydd rheolaidd o ganmoliaeth gadarnhaol. Ceir cydbwysedd addas rhwng chwarae wedi'i arwain gan oedolyn a chwarae dan gyfarwyddyd plentyn. Mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu uniongyrchol sy'n ennyn diddordeb y plant yn dda.

Mae pob ymarferwr yn modelu iaith yn effeithiol i ddatblygu ac ymestyn geirfa, gwybodaeth a dealltwriaeth plant. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i gamu yn ôl er mwyn i'r plant allu archwilio ac arbrofi drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau rheolaidd a defnyddiol o'r plant i lywio cofnodion asesu a nodi'r camau nesaf mewn dysgu. Maent yn trafod cynnydd plant yn anffurfiol ac mae hyn yn helpu cynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae ymarferwyr yn gwahodd rhieni i drafod cyflawniadau eu plentyn a throsglwyddo 'Llyfr Trysor' sy'n cofnodi cyfnod y plant yn y lleoliad. Mae rhyngweithio dyddiol yn rhoi adborth anffurfiol i rieni am ymglymiad eu plentyn mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, nid oes trefniadau i rieni wybod pa mor dda y mae eu plentyn yn dod yn ei flaen yn y lleoliad na sut gallent eu helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd meithringar lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn gartrefol ac yn hapus. Mae pob ymarferwr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, parch a thegwch yn fedrus ac maent yn helpu plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i gynorthwyo plant i fwyta ac yfed yn iach. Mae'r byrbryd bore bob dydd yn dilyn bwydlen iach ac amrywiol gyda dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. Mae ymarferwyr yn annog plant yn dyner i flasu bwydydd anghyfarwydd. Ceir cyfleoedd gwerth chweil a chynlluniedig i hyrwyddo lles corfforol plant. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn darparu cyfle i blant ddefnyddio offer corfforol a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol bob dydd.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol plant. Er enghraifft, fe wnaeth gweithgareddau yn ymwneud â'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd alluogi'r plant i ddechrau dysgu am fwydydd ac arferion o ddiwylliant gwahanol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo synnwyr plant o barchedig ofn a rhyfeddod yn ystyrlon. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i blant dyfu eu tatws eu hunain ac fe wnaeth cogydd yr ysgol ferwi'r tatws a gwneud sglodion i'r plant eu bwyta.

Mae ymarferwyr yn cynnig profiadau addas i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy.

Er nad oes unrhyw blant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd, mae gan y lleoliad brosesau effeithiol i nodi a chynorthwyo pan fydd angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos y lleoliad yn gynnes a chroesawgar. Mae ymarferwyr yn ystyried cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm. Maent yn fodelau rôl da ac yn annog plant i ddangos parch a charedigrwydd at ei gilydd.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do wedi'i drefnu ag ardaloedd dysgu sydd wedi'u dynodi'n glir, ac mae offer ar gael yn hawdd i'r plant. Mae'r safle dan do a'r ardaloedd yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae arddangosfeydd yn cynnwys enghreifftiau diweddar o waith plant ac yn creu amgylchedd deniadol a chroesawgar. Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn darparu digonedd o adnoddau sydd o ansawdd da y mae ymarferwyr yn eu defnyddio'n dda i gefnogi gweithgareddau dysgu cynlluniedig. Fodd bynnag, mae cyflenwad adnoddau'r lleoliad i hyrwyddo medrau TGCh plant yn llai datblygedig. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardal yn yr awyr agored yn briodol i gefnogi dysgu'r plant. Yn benodol, maent yn darparu adnoddau o ansawdd da i ddatblygu medrau corfforol plant. Mae ymarferwyr yn gwella profiadau plant ymhellach trwy ymweliadau rheolaidd â thir yr ysgol a'r gymuned leol.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae staff yn y lleoliad wedi gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn ac maent yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer gwella yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion y lleoliad. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus ac yn rhannu cyfrifoldebau'n dda. Maent yn darparu amgylchedd dysgu hapus a phwrpasol, lle caiff plant eu hysgogi ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae gan bob ymarferwr feysydd cyfrifoldeb clir ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithlon.

Mae arweinwyr y lleoliad yn rhannu gwybodaeth am waith y lleoliad gyda'r pwyllgor rheoli yn briodol yn ystod cyfarfodydd tymhorol rheolaidd. Mae aelodau o'r pwyllgor yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i annog a chynghori'r ymarferwyr ac yn cefnogi'r holl ddigwyddiadau codi arian.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau rheoli perfformiad sefydledig, sy'n darparu cyfleoedd priodol i ymarferwyr fyfyrio ar eu harfer.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn datblygu'r cysyniad o fyw yn iach yn effeithiol trwy ffocws clir ar fwyta'n iach, ymarfer corff a brwsio dannedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o arweiniad hunanarfarnu'r awdurdod lleol i fyfyrio ar ei ddarpariaeth a'i arfer. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn gwybod beth yw cryfderau'r lleoliad a gallant nodi meysydd i'w gwella yn llwyddiannus.

Mae meysydd presennol i'w datblygu yng nghynllun datblygu'r lleoliad yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu ac maent yn berthnasol i anghenion y lleoliad. Mae hyn eisoes wedi arwain at welliannau gwerth chweil i'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae ychwanegu 'cegin fwd' at yr ardal yn yr awyr agored wedi cynyddu cyfleoedd plant ar gyfer chwarae anniben dychmygus yn fawr wrth iddynt ymarfer rhannu a chymryd eu tro.

Mae'r lleoliad yn ymgynghori â rhieni a gofalwyr trwy holiadur blynyddol ac yn ymateb yn dda i'w hawgrymiadau. Er enghraifft, llwyddodd ymarferwyr i wella'r cyfathrebu â rhieni trwy osod hysbysfwrdd yn yr ardal aros i ddarparu gwybodaeth fel y fwydlen byrbrydau, copi o'r cylchlythyr diweddaraf a dyddiadau ar gyfer y tymor.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref â rhieni a gofalwyr. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ansawdd y gofal a'r pryder a ddangosir gan ymarferwyr tuag at eu plant yn fawr. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni'n dda am y gweithgareddau a gynhelir trwy hysbysfwrdd, a chylchlythyrau rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i gael cyngor ac elwa ar hyfforddiant. Maent yn gweithredu yn unol â'r cyngor hwn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant yn y lleoliad. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae'r lleoliad wedi darparu cegin fwd yn yr awyr agored ar gyfer y plant lle maent yn mwynhau eu hunain tra byddant yn datblygu medrau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol pwysig.

Mae gan y lleoliad berthynas gref â'r ysgol. Gall rhieni dalu i blant sy'n mynychu dosbarth meithrin yr ysgol yn y prynhawn fynychu'r lleoliad yn y bore. Mae hyn yn galluogi plant iau i ddod i adnabod plant sydd eisoes yn mynychu'r ysgol. Mae'r pennaeth yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gwahodd y lleoliad i ymuno â nhw ar gyfer digwyddiadau fel cinio Nadolig, Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod mabolgampau ac mae'n caniatáu i'r lleoliad ddefnyddio neuadd ac offer yr ysgol. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn helpu plant iau i ymgyfarwyddo â'r ysgol a datblygu eu hyder, yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymarferwyr yn mynd â'r plant allan i'r gymuned am dro yn aml. Maent yn ymweld â'r swyddfa bost i brynu stampiau ac yn postio llythyrau gartref, yn ymarfer sut i groesi'r ffordd yn ddiogel ac yn archwilio'r goedwig i sylwi ar newidiadau yn y tymhorau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos fel tîm cryf ac yn defnyddio eu hunain yn briodol yn ystod y sesiynau.

Mae’r pwyllgor rheoli yn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn dda trwy eu helpu i elwa ar hyfforddiant a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn rheolaidd.  Mae hyn yn arwain at welliannau yn y ddarpariaeth sydd o fudd i’r plant, fel ychwanegu cegin fwd at yr ardal y tu allan yn ddiweddar.  Er nad oes unrhyw weithdrefnau ffurfiol i rannu ac arfarnu effaith yr hyfforddiant, mae ymarferwyr yn gwneud hynny’n anffurfiol fel rhan o’u rhyngweithio bob dydd.

Mae’r trysorydd yn goruchwylio’r gyllideb yn effeithiol gydag un o arweinwyr y lleoliad.  Mae ymarferwyr yn ystyried yr holl wariant yn ofalus i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol ac maent yn trafod cost unrhyw offer newydd gyda’i gilydd.  Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau am wariant yn briodol ac yn cyd-fynd â meysydd i’w gwella a nodwyd.

Yng ngoleuni’r deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant a phrofiadau dysgu diddorol a phwrpasol, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |